Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 15. Rhif 11.] TACHWEDD, 1915. [P ris 2c

CYNWYSIAD.

Ar Bererindod.
Llyfrau Melus Adgof. Anthropos.
Ymson y Myfyriwr.
Purdan.
"Hanner Can Pwynt Dros Undodiaeth."
Chwedl Darawiadol. Oddiar y Twr.
Derwen Owain Glyndwr:
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.
Congl yr Awen.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN EISIEU.

Y GENINEN. Rhifyn Gorphenaf 1905.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur Newydd Spurrell

Cymraeg a Saesneg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 3/6 nett. Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

GWILYM MARLES . .	**IOLO MORGANWG** . . .
MYNYDDOG	**CERRIG Y RHYD** . . .
ALUN	**Dr. OWEN PUGHE** . .
SION CENT	**GWAITH GLANYGORS** .
YR HEN FICER . . .	**IEUAN GLAN GEIRIONYDD**
GEIRIADUR CYMRAEG	**CALEDFRYN.** . . . . .

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL

YR * YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1915. [CYF. XV. RHIF 11.

AR BERERINDOD.

HIRAETH mawr fu arnaf am flynyddoedd lawer i dalu ymweliad â

GWLAD IOLO MORGANWG;

eithr ni ddaeth yr adeg cyfleus hyd y mis diweddaf. Gan fy mod ar fy ngwyliau yn ngwlad Morgan, tybiais y gallwn roi diwrnod at y gorchwyl; a hynny a fu. Cychwynais tua'r orsaf yn foreu, a phan ddaeth yr adeg i roi tocynnau allan, gofynnais am un i St. Mary Church Road. Yn union dyna'r swyddog yn troi i lyfr. Deallais na ystyrrid St. Mary Church Road yn ddigon pwysig i ddarparu tocynnau arbennig ar ei chyfer, ac y rhaid rhoi imi docyn gydag enw'r orsaf yn ysgrifennedig arno. "Dyma ddechreu calonogol iawn," meddwn wrthyf fy hun, "os yw St. Mary Church Road mor ddibwys, beth am Dre Ffleming?" Ni roddais i fyny fy mwriad, fodd bynnag, ac ar ol taith o tua dwy awr a hanner, cefais fy hun ar ei lwyfan. Nid oedd, wedi'r cwbl, mor ddibwys ag oeddwn wedi ei phortreadu yn fy meddwl yn nghwrs y daith—gorsaf fechan, mae'n wir, ond da iawn o brydferth er hynny, yng nghanol dyffryn prydferth, ac ymddangosai fel pe yn ganolfan cryn dipyn o drafnidiaeth. Ar ol myned allan o'r orsaf, gofynnais i gyd-deithiwr

Y CYFEIRIAD I DRE FFLEMING.

"Dacw'r lle," meddai, gan gyfeirio at eglwys a phentref ar y bryn gyferbyn â ni, "a dyma'r ffordd sydd yn arwain iddo." Nid oedd yn hollol yn y cyfeiriad y disgwyliwn iddo fod—yr oeddwn wedi ymgydnabyddu â'm daear-len yn weddol drwyadl cyn cychwyn; eithr teimlwn dipyn o yswildod i amheu fy nghymwynaswr. "Beth yw'r pentref acw?" meddwn, gan gyfeirio at un arall ar yr un bryn, ychydig yn îs i'r deheu. "Arhoswch chi," meddai yntau, "efallai fy mod yn camsynied. Nid wyf finnau yn gyfarwydd iawn â'r gymydogaeth. Dyna Dre Ffleming yn debygol. St. Mary Church yw'r pentref acw." Ar ol diolch iddo am ei gynorthwy, prysurais tua Dre Ffleming. Ar ol cerdded yn frysiog am tua hanner awr, hyd heol gul, wledig, a awgrymai imi fy mod yn cyflym fyned allan o gyffyrddiad â'r byd dynol, daethum i ben y daith—i Dre Ffleming. Saif y pentref, yr hwn sydd gynwysedig o tua hanner dwsin o dai annedd, ffermydd gan y mwyaf, ar fryn uwch ben dyffryn eang, trwy

yr hwn y rhed yr afon Ddaw. Yn ddioedi aethum i'r fynwent. Yr oedd ynddi, efallai, o ddau i dri dwsin o feddau, y rhai a gedwid yn weddol glan a destlus, gorchuddiedig gan flodau lawer o honynt, am y rhai (fel yr oedd yn amlwg) y gofelid gan law dyner cariad. Ymddangosai y rhan fwyaf o honynt fel rhai cymharol ddiweddar, ond fe'm tueddid i gasglu fod yno lawer o gladdu wedi bod, ond fod llawer o'r beddau wedi ei gwastadhâu. Efallai, er hynny, fod y casgliad hwn yn anghywir. Gan fy mod wedi darllen yn "Cymru" Owen Jones nad oedd yno un garreg i nodi man bedd Iolo, rhaid oedd imi ymfoddloni ar y meddwl fy mod yn sefyll yn agos i'r fan y rhoddwyd ei gorff i orffwys ynddo. Wrth fy mod yn rhodianna fel hyn hyd y fynwent, delai rhyw feddyliau o'r fath a ganlyn i'm blino: "Dyma fi wedi dod yr holl ffordd i weled—beth? Yn unig i weled y lle y dodwyd corff dynol i orffwys ynddo yn agos i bedwar ugain a deg o flynyddau yn ol. Rhaid fod rhyw gymaint o wendid yn fy mhen cyn y gwnaethum y fath beth di-amcan." Ymgysurwn, fodd bynnag, yn y ffaith

Fod Dyn yn Naturiol yn Arwr Addolwr,

ac fod y teimlad o arwr addoliaeth yn tueddu i gynyddu yn hytrach nag i leihau fel y mae amser yn myned heibio. Balm a dueddai i liniaru'r teimladau annymunol hyn y syrthiais iddo am ennyd oedd y meddwl fod yr arwr y ceisiwn i ei addoli y diwrnod hwnnw trwy ymweled â man ei fedd yn arwr digon teilwng, yn un nad oedd eisiau imi gywilyddio o'i blegid. Ar ol treulio ychydig amser fel hyn yn y fynwent, aethum allan i'r heol. Hyd hyn, nid oeddwn wedi dod i gyffyrddiad ag un dyn, na benyw, na phlentyn. Braidd na chredwn fod y lle wedi ei lwyr adael. Ar ol myned allan, fodd bynnag, gwelais ddyn yn y pellter yn dod tua'r pentref, a chyfeiriais innau fy nghamrau fel ag i osod fy hun ar ei lwybr. Pan ddaeth ataf, cyferchais ef yn y dull arferol; arhosodd yntau, a chawsom ymddyddan diddorol. Gweithiwr fferm ydoedd, cymharol wybodus. Bob yn dipyn, fel rhagarweiniad i'r hyn yr hoffwn ymddiddan âg ef yn ei gylch, gofynnais iddo, "Ydych chi wedi byw yn hir yn y gymydogaeth hon?" "Ydwyf, tua deugain mlynedd." Yr oedd tua thrigain oed. Dylwn sylwi hefyd mai Sais ydoedd. "A glywsoch chi am Iolo Morgannwg?" "Do; yr oedd yn byw yn y pentref hwn. Bum yn cynorthwyo i dynnu i lawr y ty yr oedd yn byw ynddo." "Ydyw man ei fedd yn wybyddus?" "Nac ydyw; fe'i cladd wyd yn y fynwent hon; ond ym mha fan ni fedraf ddweyd." "Oes carreg uwch ei fedd?" "Nac oes; ond y mae cof-daflen ar y mur tu fewn i'r Eglwys." "Ydyw hi yn bosibl imi gael ei gweled?" "O ydyw; fe gewch yr allwedd yn y Ficerdy." Yna dywedodd ym mhellach, "y mae cryn lawer o fobl yn dod yma i helynta yng nghylch Iolo" (*a good many people come here fussing about old Iolo* oedd ei eiriau); "yr oedd yn ddyn mawr yn ddiameu, ond yr oedd hefyd yn ddyn ffol iawn—*he was a big fool.*" "O falle wir"—dyna'r unig ateb fedrwn roi ar y pryd, gan fod y modd trwsgl y

TAFLWYD FY ARWR I LAWR O'I UCHEL-FAN

wedi bron rhoi atalfa ar fy anadl. "Falle wir," meddwn yr ail waith, ar ol imi gael hamdden i ddod ataf fy hun, "dyna rywbeth hollol newydd." "Arferai gadw ceffyl," meddai ym mhellach, "ond nid oedd byth yn ei farchogaeth, yn hytrach cyd-gerddent i bob man. Dim ond dyn ffol wnelai'r fath beth a hyn. Arferai fyned i'r farchnad ym Mhontfaen bob dydd Mawrth yn rheolaidd, gyda'r hen geffyl yn ei law. Cychwynai am wyth o'r gloch i'r fynyd. Yna ar yr heol anghofiai ei hun yn llwyr, ac efallai mai yn Llanfihangel y delai ato ei hun, amryw filltiroedd o'r ffordd i'r Bontfaen. Cyrhaeddai i'r lle olaf tua hanner dydd, pan oedd y farchnad ym mron bod drosodd. Dywedir iddo wneud ymgais un adeg o'i fywyd i fyw ar borfa. Pwy ond dyn ffôl wnelai hyn i gyd, a llawer o bethau eraill ellid enwi?" "Nid oedd hyn," meddwn wrtho mewn atebiad, "ond yr hynodrwydd eithriadol sydd mor fynych yn cydfyned âg athrylith eithriadol." "Efallai. Yr oedd yn ddyn mawr yn ddiameu, ond yr oedd yn un hynod er hyny—ie, yr oedd yn ffol mewn llawer o bethau." Wrth ymadael, ni wyddwn yn iawn ai diolch iddo ynte ei felldithio ddylwn wneud. Diolch iddo, fodd bynnag, wnaethum. Aethum, ar ol sicrhau'r allwedd, i fewn i'r Eglwys—un fechan, ag eisteddleoedd i ryw hanner cant i drigain o fobl, syml, a da iawn o brydferth. Gyferbyn â'r fynedfa y mae cof-daflen Iolo, wedi ei gweithio i fewn i'r mur, ar yr hon y mae a ganlyn yn Gymraeg a Saesneg:

"ER COF AM EDWARD WILLIAMS

(Iolo Morganwg), o'r pentref hwn, Saer Maen, Bardd, a Hynafieithydd, yr hwn a anwyd yn Mhenon, yn mlwyf cyfymlynol Llancarfan, ar y 10fed o Fawrth (Hen gyfrif), o.c. 1746; bu farw Rhag. 18fed, o.c. 1826. Ei weddillion a orphwysant yn agos i'r lle hwn. Yr oedd ei feddwl yn gyflawn o Hanesion a Thraddodiadau Cymru. Myfyriai natur hefyd yn ei holl weithrediadau. Nid oedd ei gorff ond gwanaidd, yr hyn a'i gwnai yn lled analluog i ddilyn ei alwedigaeth; ond Duw a'i cynnysgaeddodd â galluoedd meddyliol cryfion—amynedd ymchwiliadol a deall cyflym, ac ni chymylwyd hwy gan iseledd ei amgylchiadau. Ni fu erioed mewn ysgol, eto cyfranai yn helaeth tuag at, a daeth yn awdurdod gydnabyddol mewn Llenyddiaeth Farddonol ac Hanesiol. Ei ymddygiad gwylaidd, ei dymher serchog, a'i wybodaeth eang, a'i gwnelent yn ymwelydd croesawus yn mhlas y cyfoethog yn gystal ag yn mwthyn y tlawd, ac y mae llawer yn Ngwent a Morganwg yn cofio yn dda am dano, pa rai, ynghyd ag eneill a werthfawrogant ffrwyth ei athrylith, a adeiladasant y cofnod hwn o.c. 1855. Ofnai Dduw, a rodiai yn ostyngedig ac uniawn gyda'i gyd-ddynion. Y Bardd Teuluol Breninol Southey a'i darlunia fel hyn:—

"Aeth gyda mi
Iolo, hen Iolo, yr hwn a wyr
Rinweddau llysiau'r mynydd ban a'r ddol,
Neu gysgod gwyrdd, neu dawel wely'r nant;

A phob rhyw serch at Wyddor neu at Gan
Drosglwyddwyd in' gan Feirdd a Doethwn hen."

MADOC.

Yna, ar y gwaelod, ceir y gofeb a ganlyn am ei fab: "Ei fab, Taliesin Williams (Taliesin ab Iolo Morganwg), Ysgolfeistr, Bardd Cadeiriol Eisteddfod Fawr Gwent a Dyfed, a gynnaliwyd yn Nghaerdydd, Gorphenaf 9fed, 1787. Bu farw yn Merthyr Tydfil, Chwefror 16eg, 1847. Ei weddillion a orphwysant yn yr un bedd ag eiddo ei Dad." Yn gyfochrog â'r uchod ceir y cyfieithiad Saesneg. Yn fy mrys i gyrchu i orsaf y rheilffordd, anghofiais gymharu'r copi uchod â'r gwreiddiol; eithr gobeithiaf ei fod yn gywir. Tra yn teithio o'r Eglwys i'r orsaf—rhyw ddwy i dair milltir—arhoswn yn awr ac yn y man i daflu golwg dros y wlad oddiamgylch—un o'r golygfeydd mwyaf arddunol welais i erioed—gwlad eang, goediog, gweddol wastad, cwrteithiedig. Nid rhyfedd, ddywedwn, fod y fath amgylchoedd ffafriol wedi cyffroi Iolo i ganu:—

"Hardded yw goleuni'r haulwen!
Gwên y bore'n hyfryd iawn," &c.

Cefnais ar wlad Iolo, ac yn fuan yr oeddwn yn nhref Barri. Y fath gyfnewidiad—

O DAWELWCH DYMUNOL Y WLAD.

i ganol twrf byddarol y dref. Y mae'r ddau yn meddu cryn lawer o swyn i mi. Hoff iawn ydwyf o dawelwch y wlad. Dyna'r amgylchoedd mwyaf ffafriol i weled gweithredoedd y Crëwr yn eu gogoniant. Nid llai hoff ydwyf hefyd o'r dref. Yno—yn enwedig mewn tref fasnachol fawr fel y Barri—y caf amlygiad o'r gallu rhyfeddol a berthyn i ddyn. Er gwneud y goreu o'r ddwy awr oedd gennyf, aethum yn ddioedi tua'r Ynys. Dyma'r lle goreu, fel y dywedwyd wrthyf, i weled tref Barri. Wrth edrych o honof yn ol tua'r dref, gwelwn filoedd lawer o dai—yr oll (neu bron yr oll) o'r rhai a ddaethant i fodolaeth tu fewn i'r deng mlynedd ar hugain diweddaf; ac wrth edrych i lawr tua'r porthladd, gwelwn rai ugeiniau o longau o bob maintioli—rhai o faintioli anferth. Pa rhyfedd i un o'r Salmwyr, wrth feddwl am ddyn, i lefain allan "ofnadwy a rhyfedd." Ie, "ofnadwy a rhyfedd" ydyw yn wir.

PERERIN.

LLYFRAU MELUS ADGOF.

GAN ANTHROPOS.

I.

YMAE tawelwch meddwl yn beth anodd ei feddiannu yn y cyfnod hwn. Nis gellir ymddihatru oddiwrth y cyffro a'r pryder sydd yn amgylchynu ein llwybr a'n gorweddfa, ddydd a nos. Pan ddaw min yr hwyr, ac ychydig oriau o egwyl, yr ydym yn

addunedu i ni ein hunain y cawn fwynhau cwmni rhyw lyfr, fel yn y dyddiau fu. Ond nid ydyw bywyd yr un heddyw,—nis gall fod. Y mae'r blas wedi ymado, i gryn raddau, a rhyw gysgod ar bob diddanwch. Nid ydym yn teimlo yr un awch a dyhewyd pan yn troi dalennau llyfr newydd. Haws gennym syllu ar oleu'r tan, neu wrando swn gwynt y cyfnos yn cwynfan ym mrig y coed. Yr ydym yn cyfranogi o deimlad y proffwyd Hebreig—"O na byddai i ni yn yr anialwch letty fforddolion." Ond ofer yw y breuddwyd. "Swn y rhyfel" sydd yn mhob man, pob cylch o fywyd. Y mae yr hyn a elwir yn "llenyddiaeth" y rhyfel wedi goresgyn pob rhandir. Dyna welir ar y parwydydd; ar fyrddau'r llyfrwerthwyr; ac yn mhob cylchgronau a newyddiadur. Hawdd fydd adwaen llenyddiaeth y flwyddyn 1915 ym mhen canrif. Erys lliwiau rhyfel ar ei gwisgoedd. Ond carasem fedru ei hosgoi, ambell ddiwrnod, a dychwel i'r hen lwybrau hyfryd a gerddem gynt. Hwyrach y dywed rhywrai ein bod yn amddifad o'r ysbryd a weddai fod ynom ar adeg o'r fath hon. Dichon hynny. Ond gwelsom sylw yn rhywle fod y milwyr ar y Cyfandir yn meddwl yn debyg. Awyddant, lawer ohonynt, am rywbeth i'w ddarllen; ond nid ydynt yn awyddus i ddarllen llyfrau sydd yn son am y rhyfel. Y maent yn cael digon o'r peth hwnnw bob dydd. Eu hyfrydwch hwy ydyw darllen llyfr sydd yn arwain eu meddyliau at y byd a'r bywyd a fu, cyn i'r trychineb hwn ddifa eu swyn a'u hedd. Ai rhyfyg ydyw i lenorydd distadl gyffesu yr un peth am dano ei hun?

II.

Yr wyf wedi bod yn edrych ar y silffoedd llyfrau o amgylch fy ystafell. Yno yr erys rhai cannoedd o hen gymdeithion oes. Nid wyf wedi eu rhifo erioed, canys nid byddinoedd ydynt. Ac nid oes nemawr drefn na dosbarth yn perthyn iddynt; ond gwn pa fodd i gael gafael arnynt pan ddelo galw am eu gwasanaeth. Sut? Wn i ddim. Rhyw reddf, mae'n debyg. Ond, dyna'r ffaith. Nid oes dim tebyg i "drefnyddiaeth" yn teyrnasu yn y fan hon, a dichon fod hynny yn fynegiad o hanes eu perchennog. Gweriniaeth ydyw y ffurf-lywodraeth; a phawb yn foddlawn ar ei le. Y mae amryw o awduron Ellmynaidd yn mhlith y llu,—llyfrau duwinyddol, esboniadau, a hanes y diwygiad Protestanaidd. Ambell fardd Ellmynaidd, hefyd,—yr oll mewn cyfieithiadau, wrth gwrs. Daeth amryw ohonynt i'n meddiant pan yn "stiwdent" yn y Bala. Yr oedd bri ar bethau Germani yn y cyfnod euraidd hwnw. Byddem yn son am Dorner, Meyer, Lange, gydag awdurdod. Ac onid oedd ein hathraw parchedig wedi ysgrifennu traethawd ar Goethe? Beth a wneir iddynt heno? Dywed un gweinidog a adwaenom ei fod ef wedi alltudio pob duwinydd Ellmynaidd o'i lyfrgell. Ond nid wyf fi yn medru dygymmod a'r syniad hwn. Yr wyf wedi gosod Martensen —duwinydd Holland—i edrych ar ol duwinyddion Germani. Y mae Goethe dan warchodaeth nifer o feirdd Cymreig, ac nid oes un arwydd o wrthryfel yn eu plith.

III.

Ond rhag digwydd fod rhyw "yspiwr" yn llechu yn eu plith, aethum atti i wneyd archwiliad priodol. Tynnais y llyfrau i lawr—y naill astell ar ol y llall. Dyma nhw,—hen gyfeillion ffyddlon fy oes! Nid oeddwn wedi darllen aml un ohonynt er's blynyddoedd. Dim ond cyfarch a chyfaddef wrth fynd heibio. Ond yr oedd llyfrau newydd a diweddar yn gormesu ar fy hamdden, ac yn peri i mi anwybyddu yr hen awduron. Teimlwn yn euog, lawer hwyrnos, wrth syllu arnynt ar y silffoedd. Gwnawn ymddiheuriad iddynt, a phan ddelo amser cyfaddas, meddwn, mi a alwaf am danoch.

IV.

Ac wrth eu trin, heno, daeth rhyw hiraeth dros fy ysbryd. Yr oedd y llyfr a ddaliwn yn fy llaw yn llefaru wrthyf; yr olwg arno yn adgyfodi oriau melus, euraidd, pan oedd bywyd yn wahanol i'r hyn ydyw yn awr. Y mae'n demtasiwn i mi enwi rai ohonynt, ond nid gweddaidd i ddyn ydyw son llawer am y pethau sydd yn digwydd bod yn ei ystafell ei hun. Ac nid ydyw llyfrau yn galw am yr hyn sydd mor bwysig yn ngolwg rhai pobl,—cael eu henwau yn y "papyr newydd." Ond y mae'r hen gyfathrach yn aros yn gysegredig. Daw y gorphenol yn agos, ac yr ydym yn ail-fyw y munudau gwynion ac anniflanedig. Dyma ——. Y mae ei amlen wedi llwydo, a'i ddail wedi melynu; ond erys efe mor loew a phan eisteddwn yn ymyl pistyll ar lethrau'r Berwyn, ar dwmpath o frwyn a'r llyfr yn fy llaw. Nid oedd cwmwl yn y ffurfafen y diwrnod hwnnw. Daeth aml un wedi hynny. Ond y mae'r hen lyfr yn cadw'r cof am nawnddydd bendigaid. Dichon na ddyry yr un mwynhad, heno; nis gellid disgwyl hynny. Ond efe oedd yn gludydd ysbrydoliaeth yn more oes, a haedda gael ei gadw, a'i anwylo, nes daw yr adeg i ddweyd—"Nos da."

V.

Dyma ——. Coffa da am nos Sabboth yn nhy capel ——, un o gymoedd Meirion. Cefais genad i aros wrth y tan wedi i'r teulu ymneillduo. Nid oedd namyn darn o ganwyll at fy ngwasanaeth, oherwydd yr oedd cynildeb yn rhinwedd pwysig ar adegau o'r fath. Tebyg mai canwyll yn perthyn i'r "achos" ydoedd, a byddai yn rhaid rhoddi cyfrif am dani i'r awdurdodau ar ddiwedd y flwyddyn. "Canwyllau at wasanaeth y ty capel, – hyn a hyn." Ac nid oedd pregethwr a fyddai yn "llosgi" gormod ar ganwyllau yn debyg o gael ei alw yno drachefn. Dylasai efelychu y wraig rinweddol y sonir am dani yn Llyfr y Diarhebion—"Ni oleua ei chanwyll ar hyd y nos." Ond—na fyneger hyn yn Gath nac ar heolydd Ascalon—byddai ambell "stiwdent," yn y dyddiau hynny, yn mynd a "chanwyll" yn ei ysgrepan! Prin y gellid dweyd am dano ef ei hun—"efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn goleuo." Ond, dyweder a fyner, nid oedd yn amddifad o oleuni—yr oedd y ganwyll yn yr ysgrepan, os nad ydoedd yn y bregeth.

Ac yn ngoleuni'r ganwyll honno, hen lyfr hynaws! y darllennais di, bob gair, ar nos Sabbath, yn nghanol distawrwydd y cwm. Mor ddifyr ydoedd dy stori! Dichon nad ydoedd yn hollol "Sabbothol" ei rhediad, yn ystyr gul a Phiwritanaidd y peth; ond dylid cydnabod ei bod yn fore "Llun" cyn i mi ei gorphen. Diolch i'r "ganwyll" am ei gwasanaeth ddistaw. Yn sicr, yr oedd bendith ynddi. Yr oedd hen gloc diaconaidd yn cyhoeddi yr awr,—un—dau—tri—o'r gloch y boreu, pan orphenais ddarllen y llyfr, a'r ganwyll wedi suddo i lawr i'r "socet."

VI.

Hawdd fuasai parhau yr ymadrodd, ond nid dyna fy neges pan yn ysgrifenu. Dodais y llyfrau yn ol ar yr estyll, a theimlais fod y drafodaeth ddamweiniol wedi fy arwain i ryw "Gaersalem dawel, ym mhell o swn y rhyfel." Ar y pryd, yr oeddwn mewn amgylchedd wahanol, ac yn byw mewn byd newydd. Yn hytrach, hen fyd wedi dod yn newydd a ddylaswn ei ddweyd. Y mae ymweled â hen lanerchau yn gwneyd hyn ar brydiau. Deuant yn gyfryngau i ddyn i ail dramwy rhandir ei adgofion. Felly gyda llyfrau. Y mae yna ryw "amser a lle" yn eu banes, fel y dywedir ar ragleu cyfarfod misol. Nid ydyw pob llyfr yn gosod argraph arhosol ar y meddwl. Yr ydym yn anghofio ei gynnwys, ac yn ebargofi ei fodolaeth ef ei hun. Ond erys llyfrau eraill fel yr erys bro mebyd, a llwybrau serch, ar lenni anweledig. Dichon y cuddir hwy o'n gwydd, ar lawer cyfnod, ac y daw pethau agosach atom i deyrnasu yn eu lle. Ond rhyfedd y gallu sydd ganddynt i adgyfodi drachefn. Dim ond syllu ar hen lyfr, a throi ei ddail, daw yr "awr wen oleu" yn ol am ennyd, a dychwel y "cysuron gloew" i lonni enaid dyn. Fel yna y bu yr hwyrnos hon. Nid wyf wedi darllen dim yn ddyfal: cefais gysur ac adloniant yn nghwmni y pethau a ddarllennais yn ngoleu haul, ac wrth oleuni canwyll, yn y blynyddau sydd wedi ymado i'r distaw dir. Ac yr wyf yn adrodd y stori—nid er mwyn tynu sylw at ddim personol,—eithr er mwyn y sawl sydd, fel fy hunan, yn methu cael "gafael" yn y pethau fu yn hyfrydwch i ni feddwl am danynt pan fyddai y nos yn estyn, a'r gauaf yn dynesu. Hoffem edrych ymlaen at yr adeg i dreulio oriau'r hwyr yn y gadair ger y tan, a rhyw lyfr i'n cyfareddu a'n diddanu,—ninnau yn "gweled gweledigaethau," ac yn mwynhau y tawel hedd. Sut y gwnawn eleni? Onid ydyw yr ysbrydiaeth i ddarllen wedi cilio? Dichon ei fod, i gryn raddau. Ond rhoddwn dro i fysg yr hen lyfrau a adwaenem—"the old familiar faces"—a thebyg y daw engyl adgof i babellu ger llaw. Awn oddi amgylch i fryniau a dyffrynoedd ein bywyd; gwnawn "flank movement"—a dichon y deuwn i wersylloedd y gwyrddlesni a'r ffrydiau grisial, lle y "Treigla'r Caveri," ac y distylla athrylith ei "neithdar a'i gwin."

YMSON Y MYFYRIWR.

Yr oeddwn yn eistedd ar làn y môr. O'm deutu yr oedd torf o fobl o bob oedran—o'r hynafgwr a'r hynafwraig i lawr i'r baban yn mreichiau ei fam. Y fath

DESTYN DYDDOROL O FYFYRDOD

yw tyrfa o fobl! Ar wynebau llawer o honynt gwelwn arwyddion o'r hafog y mae amser ac ystormydd bywyd wedi wneud arnynt—rhychiau ar y wyneb, arafwch ac afrwydd-der symudiad, y wedd welw, yr olwg drist a awgryma'r gofyniad "beth yw dyben yr holl ffwdan sydd yn rhan i fywyd pob dyn a benyw?" Ar ereill ieuangach gwelwn arwyddion o iechyd, o nerth corfforol na fedrai dim (allwn feddwl) ei amharu, o sirioldeb a amlygai eu bod yn mwynhau bywyd i'r eithaf. Ni hoffwn i'r darllenydd gasglu mai i'r hen yn unig y perthyn yr arwyddion cyntaf, ac mai i'r ieuainc yn unig y perthyn yr olaf. Y mae ambell un yn cadw siriolded yn ei galon hyd y terfyn, nid oes un ystorm fedr ymlid i ffwrdd y wên heulwenog oddiar ei wyneb; tra y gwna'r olwg auafol ei hymddangosiad yn fynych ar wyneb yr ieuanc cyn y câ amser i brofi o ddyferynau chwerwon bywyd. Gwel y sylwedydd craffus hyn i gyd mewn tyrfa o fobl, ac nid oedd y dorf welais i ar lan y môr yn eithriad. Gwnelai pob un o honynt, er hyny, ymgais i fwynhau eu diwrnod o ryddid, ac

YFED O AWELON IACHUS Y WERYDD

yn y gobaith am adgyfnerthiad ar gyfer yr ymdrech ar ol dychwelyd i'w cynefin leoedd. Yr oedd y plant yn mwynhau eu hunain i'r eithaf—rhai yn ymolch, rhai yn rhedeg ar y graian yn mron mor noeth a phan ddaethant i'r byd gyntaf, rhai gyda'u rhawiau a'u bwcedi bychain yn tori ffosydd, efelychiadau (allwn feddwl) o'r ffosydd y mae ein milwyr dewr yn Ffrainc yn gorfod treulio cymaint o amser ynddynt ac yn y rhai y câ'r fath nifer o honynt derfyn ar eu hoedl ddaearol, rhai yn casglu cregin a gwymon, ac yn y blaen. O sylwi ar y dorf codaf fy ngolwg i gyfeiriad y môr. Edrychaf ac edrychaf ac edrychaf arno; ond er yr edrych o honof yn ddiderfyn arno, nid yw'r môr (dyna sydd yn hynod) byth yn fy mlino. Y mae yn wastadol newydd; y mae mor fawreddog—ie, mor fawreddog yn ei dawelwch ag yn ei gynddeiriogrwydd; y mae mor eang—fe'm cludir gan fy nychymyg yn mhell tu hwnt i'r gorwel ychydig filltiroedd oddiwrthyf i'r eangderau tu hwnt i'r llinell orwelog; y mae mor ddwfn—fe'm cludir gan fy nychymyg, nid yn unig i bellterau arwynebol y môr, ond hefyd i'w ddyfnderoedd, a phair imi ddyfalu lluosogrwydd a ffurf ei breswylyddion. Nid rhyfedd fod y môr yn apelio mor gryf at yr ysgrifenwyr cysegredig fel tystiolaeth o fodolaeth gallu anfeidrol fel ei Grewr a'i Lywodraethwr. "Pwy a gauodd y môr â dorau, pan ruthrodd efe allan megis pe deuai allan o'r groth? Pan osodais i y cwmwl yn wisg iddo, a niwl tew yn rhwymyn iddo? Pan osodais fy ngorchymyn arno, a phan osodais drosolion a dorau, gan ddywedyd, hyd yma y deui, ac nid yn mhellach; ac yma yr atelir ymchwydd dy donau di?" Nid oedd y môr i awdwr yr uchod agos mor eang ag ydyw i ni. Byd bychan, cyfyng, oedd ei fyd ef. Beth ddywedai pe gwybyddai fod y môr mor eang ag ydyw? Sicr yw y pallai iaith iddo i'w ddesgrifio. Ond yr un fath dystiolaeth awgrymai'r môr iddo yn awr a'r pryd hyny—tystiolaeth o fawredd y Gallu sydd yn ei lywodraethu. Dyna'r wers ddysgir i ni gan y creäd yn mhob rhan o hono—nid yn unig gan y môr, ond

hefyd gan y tir yn ei ddyffrynoedd a'i fynyddoedd, a chan y bydoedd aneirif yn yr eangderau, sef

MAWREDD AC ANFEIDROLDEB Y CREWR;

ie, ei gariad anherfynol hefyd, er nad yw'r cariad bob amser mor amlwg. Wedi eistedd o honof ar lan y môr am dipyn, troais fy wyneb tua'r dref. Wrth ymlwybro o honof yn araf hyd yr heolydd, gan syllu ar wynebau'r fforddolion, y rhai a gerddent mor araf a diamcan a minau, gwelais yn y pellder hen gyfaill nad oeddwn wedi dod i gyffyrddiad ag ef er's cryn amser. Ni ddywedaf yma pwy ydoedd rhagor na'i fod yn dod o gymydogaeth Llanfi———ond i ba ddyben y bradychaf ef trwy ddyweyd gormod. Deallais ar unwaith ei fod ar lan y mor er's wythnosau, oherwydd yr oedd ar ei wyneb arwyddion o iechyd anarferol dda. Yr oedd mewn ymgom frwd â rhywun nas adnabyddwn i mo hono. Arefais rhag i mi dori ar yr ymddiddan—ymddiddan cyfrinachol, o ran a wyddwn i. Yn mhen enyd fe'm gwelwyd ganddo, ac amneidiodd i mi fyned ato; yr hyn a wnes. Ar ol yr ysgwyd llaw arferol, dywedodd wrthyf, "Dyma ddyn," gan bwyntio ei fys at ei gyfaill, "yn dyweyd nas gall neb fod yn gadwedig heb gael ei fedyddio—heb gael ei drochi hefyd, os gwelwch chi'n dda." "Wel," meddwn inau, "mor bell ag y mae ffurf bedydd y Testament Newydd yn myned, y mae yn debyg o fod yn iawn. Ond nid yw'r ffurf ddim. Gall dyn fod yn golledig, er wedi ei fedyddio; a gall fod yn gadwedig heb ei fedyddio." "Ond mae'r Beibl yn dysgu'n wahanol," atebodd y dyn dieithr; "dywed y Beibl nad oes cadwedigaeth heb fedydd; a bedydd trwy drochi yw bedydd y Beibl." "Yr ydych yn

ESBONIO'R BEIBL YN RHY LYTHYRENOL,"

meddwn mewn atebiad; "nid yw un bedydd o un gwerth os na fydd cyfnewidiad mewnol yn cydfyned ag ef." "Chi sy'n dweyd hyny," meddai yntau, "ac nid y Beibl; dywed y Beibl, "Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig."

"Os felly," meddai'm cyfaill wrtho, "mor ychydig yw nifer y rhai cadwedig, ynte." "Ychydig yw y rhai cadwedig," oedd yr ateb; "dywed y Beibl hyny." "Syniad ofnadwy yw hwn," meddwn inau; "gwell gen i syniad Tennyson, 'O'm hyder yw mai rhywfodd da fydd diwedd *pob* daearol foes."

"Dyn oedd Tennyson," meddai'r gwr dieithr," ac y mae un mwy na dyn wedi dweyd mai ychydig yw y rhai cadwedig." "A rhaid bedyddio cyn bod yn gadwedig, raid e?" "Rhaid," meddai; "dyna ddywed y Gair." Ar hyn trôdd oddiwrthym. "O b'le mae e'n dod?" gofynais i'm cyfaill. "Weles i erioed o'r blaen mo hono. Mae'n debyg ei fod yn dod o Aman——." "O, wel," meddwn, "mae'r ffaith yna yn esbonio'r cwbl." "A glywsoch chi erioed y fath ffolineb?" meddai'm cyfaill. "Do, lawer gwaith; ond nid yn ddiweddar iawn, rhaid i mi gyfaddef." "Rwy'n hoffi meddwl fod dynion o bob enwad yn gadwedig," meddai; "nid mater o gredo a defod ac Eglwys ac Enwad yw cadwedigaeth. 'Rwyf wedi bod yma er pum' wythnos; a fe fûm yn mhob un o'r tai cyrddau yma. Fe ês i'r Eglwys y Sul diweddaf er mwyn i mi allu dyweyd pan âf tua thre"—wel, efallai mai gwell yw peidio datguddio'r oll o'r gyfrinach. "Ond beth ydych chi," gofynais iddo, "pe taech yn dod allan yn eich lliw iawn?" "Tawch, tawch," meddai yntau; "mae'n dda genyf gwrdd â chwi. Yr wyf

YN DDARLLENWR CYSON O'R YMOFYNYDD;

a chaf lawer o bleser wrth ei ddarllen." Ar hyn ymadawsom â'n gilydd. Yna, troais fy wyneb unwaith yn rhagor tua'r môr. Yr un argraff wnelai arnaf, yr un dystiolaeth ddygai i mi, yr un wers awgrymai, ag o'r

blaen. Ai posibl (gofynwn i mi fy hun) fod y Crewr, y mae'r cread anferth yn amlygu ei fawredd, wedi'r cyfan mor fychanus a damnio dyn am nad yw wedi ei drochi mewn dwfr? Na, na, y mae hyn yn anmhosibl.

"Yn ddall na rodia dim ei daith,
Na chollir dim un bywyd byth,
Na theflir dim i ddamniol nyth,
Pan ddygo Duw i ben ei waith.
Felly fy nghred."

Gwell genyf fyw yn ngoleu'r gobaith eangach hwn y rhoddodd y bardd, er mai dyn ydoedd, fynegiad iddo mewn llinellau mor dlws. Y mae'r meddwl hwn yn cydgordio yn well a'm cred yn Nuw fel Tad cariadlawn—un o wirioneddau canolog, hanfodol, cenadwri Iesu.

MYFYRIWR.

PURDAN.

YMGOM YR EFAIL.

RHYS.—Beth ydyw ystyr y *Purgatory* y sonia'r papurau Seisnig gymaint am dano y dyddiau hyn?

DAFYDD.—Ystyr syml y gair yw lle i buro neu i lanhau dyn. Yn y Geiriadur dywedir—Y man yn ol y Pabyddion lle mae'r meirw ffyddlon yn cael eu puro oddiwrth y pechodau hyny ellir eu maddeu (*venial sins*).

SHON.—Ellir eu maddeu? Caton pawb! Nid oes son yn y Beibl ond am ddau le i'r meirw fyn'd iddo—nefoedd neu uffern.

R.—A oes gair Cymraeg am dano?

D.—Oes. Y gair a ddefnyddir yn y Gymraeg yw *Purdan*—y tân sy'n puro, gallwn feddwl.

S.—Dau le, ac edryched pob un ati fod ei ddewisiad yn iawn—nefoedd dragwyddol neu uffern dragwyddol.

D.—Gwir iawn; cred gyffredinol yr Eglwysi Protestanaidd yw mai dau le yn unig sydd, a bod pob dyn i fyned i'r naill neu'r llall ar ol marw.

R.—Yr wyf fi yn proffesu fy hun yn Brotestant, ac ymddengys y syniad i mi yn ofnadwy. Meddyliwch am y miloedd sydd yn myn'd yn ysglyfaeth i'r rhyfel presenol bob dydd. Brith yr ystyriwn ni'r milwr fel rheol. Byr yn ol mesur cymdeithas yn gyffredin; ond yn meddu llawer o nodweddion canmoladwy. O leiaf, wele ef yn rhoddi ei oll, ie, ei fywyd ei hunan dros ei wlad, fel nad elo yn sarn dan draed gelyn nad yw yn gosod un pwys ar gyfiawnder a chware teg, ond yn ystyried fod gorchfygu yn gyfystyr a iawnder. *Might is right.* Trecha treisied, gwana gwaedded.

R.—Y mae rhywbeth yn wrthun yn y meddwl mai'r dyn cryfaf yw'r dyn gore, fod gallu neu nerth corfforol i orchfygu y brawf o iawnder unrhyw beth; a mwy gwrthun fyth yw y syniad y bydd Duw yn trosglwyddo i golledigaeth tragwyddol yn uffern y sawl nad yw yn dod i ofynion y Ddeddf. Gall fod yn ddyn cymedrol yn ei holl ffyrdd, yn rhodio'n weddus, ac yn byw yn ddiargyhoedd yn ngolwg y byd.

S.—Y mae Rhys yn siarad yn naturiol ddigon; ond nid natur sydd yn penderfynu pwnc fel hwn, ond deddf. Os nad ydyw dyn yn addas i'r nefoedd, nid oes un lle arall iddo fyn'd ond uffern. Edrych ati, Rhys,

neu fe ei yn Sosin. Cofia dynged y rhai hyny. Dy galon dyner, gydymdeimladol, sy'n debyg o dy arwain di ar gyfeiliorn. Ni chlywais i ddim son erioed fod dim da yn dyfod o'r Rhufain Babyddol.

R.—Yr wyf fi'n credu'r Beibl sy'n dweyd mai Duw'r Cariad yw Duw, ac ni alla i ddim llai na chredu fod gan Dduw well trefn na thaflu y rhai a ystyriwn ni fe allai yn ddi-ddrwg, di-dda, i golledigaeth dragwyddol.

S.—Rwy' fi'n sicr dy fod ti ar lwybr peryglus yn awr. Dywed y Beibl hefyd fod Duw yn dân ysol.

D.—Y mae genyf fi lawer o gydymdeimlad â Rhys? 'Dalla i ddim cysoni uffern gyffredin yr eglwysi â chariad Duw. Ac yr wyf fi yn tueddu i gredu fod rhywbeth yn Mhurdan y Pabydd, nad yw ei athrawiaeth yn ddisail.

R.—Mae'n dda genyf eich clywed yn caniatau cymaint. Nid yw dyn yn mhell o'i le pan yn caniatau i'w natur ore i'w arwain.

S.—O-ho, edrychwch ati frodyr, yr ydych yn sicr o fod ar ddibyn perygl yn awr.

R.—Dyro glywed, Dafydd, yn fwy manwl os medri, beth yw natur y Purdan a gred y Pabyddion ynddo.

D.—Man yw Purdan y Pabyddion lle y glanheir dyn oddiwrth rai mathau o bechod. Ystyriant fod rhai mathau o bechodau y gellir eu maddeu, ac eto os yw dyn yn euog o honynt, nid yw yn addas i'r nefoedd heb ei waredu oddiwrth y rhai hyny.

R.—Gall fod rhywbeth yn y syniad fod ambell ddyn yn rhy dda i fyn'd i uffern ac heb fod yn ddigon da i'w dderbyn i'r nefoedd.

D.—Credaf fi fod rhywfaint o wir yn yr hyn sydd wrth wraidd y Purdan, a chredaf hefyd fod y Pabydd yn gwneyd defnydd na ddylai o hono. A gaf fi adrodd stori fach i chwi, stori ddarllenais i y dydd o'r blaen. "Un nos Sul, gadawodd menyw ei gwlawlen ar ol yn y capel, a dranoeth ceisiodd gan fenyw arall i'w nol iddi. Aeth hono, a galwodd ar geidwad y capel. Ni feiddiai fyned i mewn ei hunan, meddai, am mai Pabydd oedd. Nolodd y ceidwad y wlawlen iddi, a gwahoddodd hi i fwrw golwg o amgylch. Yn y diwedd, cymerodd ei pherswadio. Gwnawd argraff ddwys ar ei meddwl gan ffenestr liwiedig gydag arwyddlun o'r Croeshoeliad (*crucifixion*) arni. Adroddodd yn syml ac yn ddwys yr hyn oedd y Gwaredwr iddi hi. Yna dywedodd ei bod wedi colli mab yn y rhyfel, a'i fod yn faich trwm arni i geisio ei gael allan o'r Purdan. Ar ol hir gymell, dywedodd yr hyn oll oedd yn ei chalon. Yr oedd i gostio chweigen y mis am ddwy flynedd i gael enaid ei mab allan o'r Purdan i ryddid y bywyd bendigedig." Fe soniodd Shon am Sosiniaeth, ac awgrymodd fod perygl yn ymyl. Yr wyf fi wedi darllen YR YMOFYNYDD am rai blynyddau, ac yr wyf am ddweyd tipyn yn nghylch y pethau a ddysgais ynddo. Nid yw YR YMOFYNYDD yn dysgu fod maddeuant yn fater o £ s. d.; nid yr £ s. d. fydd yn agor porth y nefoedd i neb. Y mae'r agoriad neu'r allwedd i'r nefoedd o fewn cyraedd y tlotaf. Yn ychwaneg i hyny, dysg YR YMOFYNYDD nad lle o gwbl yw nefoedd nac uffern. Nid rhywbeth hwnt i'r bedd ydynt chwaith. Egwyddor, cyflwr, yw nefoedd. Teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae—a theyrnas uffern yr un peth, o fewn mae hono hefyd. Y mae ein nefoedd neu ein uffern o fewn cyraedd ini yma ac yn awr—gyda ni yma, gyda ni hwnt i'r llen. Bydd pob drwg gyflawnwn ni, yn y man, yn dân ysol, yn Burdan os mynwch, ar aelwyd cydwybod, i'w dinystrio a'i difa nes ei gadael yn lan.

"O'm hyder yw, mai rhywfodd da
Fydd diwedd pob daearol foes—
Pob poen a phob ewyllys groes,
Amheuaeth a phob dynol bla. &c."

B.C.D.

13. - Y Beibl.

Addef Undodiaid gyda diolchgarwch ddyled Gwareiddiad y Gorllewin i'r Beibl a theimlant yn flin mai ychydig ddarllenir arno yn y dyddiau hyn.

Y Llyfr Mwyaf.--Pe myfyriai dynion ef yng ngoleu'r wybodaeth a dafliwyd ar ei dudalennau gan ymchwil barchus, cawsent fwy o fudd ohono nag a gafodd eu teidiau gynt. Ni bu'r neges erioed cyn glired ag ydyw heddyw. Os cyfiawnhawyd trwy ei eiriau ysgelerderau erchyll, ac yr amddiffynwyd caethwasiaeth, rhyfel ac aml-wreiciaeth ni ddylesid anghofio byth iddo faethu bywydau mwyaf defosiynol Ewrob. Magodd y grefydd buraf, y duwioldeb ardderchocaf a'r moesoldeb uchaf. Nid oes ym myd llên ddim cyfuwch a'r Bregeth ar y Mynydd, na bywyd brydferthed ag eiddo'r Meistr. Ei yspryd ydyw Yspryd Duw mewn gwirionedd.

Llyfr Dynol. — Nid yn unig cynnwys wirionedd mwyaf gwerthfawr, ond y mae'n lyfr dynol angherddol. Darlunir dyn fel y mae, gyda'i bosibiliadau dwyfol a'i ffaeleddau lawer, gyda'i ddyheadau tuag at Dduw a'i ogwydd at ddrygioni. Fel myfyrdod ar y natur ddynol y mae'n ddiguro.

Nid Cyfwerth Mohono.— Nid yw pob rhan ohono'n gyfwerth a'i gilydd. Cai'n teidiau hyd yn oed fwy o gymorth mewn rhai adrannau nag ereill ac eto yn credu fod pob pennod ac adnod yn air Duw. Trowch i'w Beiblau a chewch ol eu bysedd ar dudalennau a gynnwys y Salmau ardderchocaf ac efengyl yr Iesu. Cytuna efrydwyr diweddar yn awr "y cynnwys y Beibl air Duw, ond nid ydyw yn gyfangwbl yn air Duw." Daliai'r Iesu ragoriaeth ei athrawiaeth ef ar y Gyfraith pan ddywedai, "Clywsoch ddywedyd, Car dy gymydog a chasha dy elyn. Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, Cerwch eich gelynion a gweddiwch dros y rhai a'ch erlidiant."

14.—Anffaeledigrwydd y Beibl.

Edrychai'r Undodiaid bore ar y Beibl rywbeth yn debig a'u brodyr uniongred. Gofynnent am adnodau i brofi'r Drindod. Pes ceffid, ymadawai llawer o honynt, ellid tybio, a'u Hundodiaeth. Pan ddywedodd James Martineau yn 1836 fod yn rhaid dwyn pob cwestiwn o grefydd i'w brofi gan reswm "i brawf yr hwn y rhaid dwyn yr Ysgrythyr ei hun," brawychwyd rhai o weinidogion hynaf yr Undodiaid nid ychydig.

Anffaeledigrwydd. — Eto yr Undodiaid oedd yn mhlith y rhai cyntaf i addef na ellid derbyn pob gair o'r Beibl fel gwirionedd.

Y mae'r ymrafael hon bron trosodd erbyn hyn, ond bydd o les efallai i ad-alw i gof ychydig ffeithiau sy'n ymwneud a'r testun. Y mae'r Beibl yn dra anghymesur mewn gwerth. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y darlun o'r Duw a addolid gan y patriarchiaid a'r Duw a geisid gan yr Iesu mewn gweddi. Dirfawr hefyd yw'r pellder rhwng safon foesol chwedl brad a thwyll Rahab ag eiddo y Samaritan Trugarog.

Cyfieithad Ysprydoledig.—Er mor hynod yr ymddengys, nid yr Hebraeg na'r Groeg ond yn hytrach y Cyfieithad Saesneg (neu Gymraeg) a ystyrid yn ysprydoledig. Rhoddwyd dyrnod marwol i'r dyb hon pan gyhoeddwyd y Cyfieithad Diwygiedig. Gwnaeth yr Archwilwyr 36,191 o gyfnewidiadau yn y testun, cyfieithad ac atalnodiad y Testament Newydd ei hun. Yn y testun gwnawd 5,788 o gyfnewidiadau, eto ni ystyrid chwarter y rhai hyn yn effeithio ar gynnwys y testun. Dylesid cofio mai

nid cyfieithad newydd mo'r Cyfieithiad Diwygiedig ond yn hytrach archwiliad, ac na wneid un cyfnewidiad oni byddai mwyafrif o ddau ymhen un trosto.

Y TYBIAU BORE. — Perthyn y Llawysgrif hynaf o'r Groeg sydd ar gael i'r bedwaredd ganrif. Ysgrifenwyd y llawysgrifau ereill rywbryd rhwng y bumed a'r nawfed ganrif. Nid oedd argraffu wedi'i ddarganfod, a rhaid oedd ysgrifennu pob copi newydd, a chanfyddir yr anhawsder ar unwaith o gael perffaith gywirdeb. Rhyw ychydig tros gan mlynedd wedi marw'r Iesu, gwrthododd Marcion y llyfrau i gyd yn ffugiol gydag yn unig eithrio Efengyl Luc a deg o Lythyrau Paul. Cyn ei amser ef, dywedodd un o'r tadau boreuaf—Papias, fod yn well ganddo roi hyder yng ngair y rhai a fu'n gwrando'r apostolion gan gredu "nad ydoedd y wybodaeth a allasai gasglu o lyfrau mor fuddiol a'r un a gedwir yn y traddodiad byw." Y mae'r dystiolaeth hon yn bwysig canys gwyddai Papias am fodolaeth yr Efengylau yn ol Mathew a Marc.

15.—Uwch Feirniadaeth.

Derbyn Undodiaid ganlyniadau sicr yr hyn a elwir yn Uwch Feirniadaeth y Beibl. Y mae yna ddau fath o feirniadaeth—yr Is a'r Uwch. Ymwna Is-feirniadaeth a'r testun â gramadeg. Amcana at gael ffurf wreiddiol y llawysgrifau. Cymerer engraifft. Wedi archwilio y llawysgrifau hynaf, cafwyd nad oedd yr adnod a geid fel I. Ioan v. 7 o'r Testament Awdurdodig yno o gwbl. Gadawyd hi felly allan gan yr archwilwyr. Dyna oedd Is-feirniadaeth.

YSTYR Y TERM. — Ceisia Uwch Feirniadaeth ddarganfod dyddiad ac awdur, ansawdd a rhediad y Llyfr neu'r adran, 'nghyd a'r amgylchiadau berodd iddo gael ei ysgrifennu. Cymerer engraifft. Siaradwn heddyw am Lyfr cyntaf ac ail Lyfr Esaia canys gwyddom na ysgrifenwyd mohono gan yr un awdur. Dywed Esaia "Yn y flwyddyn y bu Uzziah farw, y gwelais yr Arglwydd." Bu Uzziah farw yn 740 C.C. Ymwnel Penodau xl.—lxvi. ar alltudiaeth, a dyddiad y gaethglud gyntaf oedd 597 C.C., sef cant a thair a deugain o flynyddoedd yn ddiweddarach. Y mae felly yn eglur nad yr un dyn a ysgrifennodd y llyfr i gyd. Galwodd amgylchiadau yn nheyrnasiad Ahaz 733–721 C.C. am un rhan, ac amgylchiadau y gaethglud 597–538 C.C. am y ran arall.

ENGRAIFFT DDIWEDDAR.—Gadawer fod llyfr wedi ei ddarganfod a briodolir i Shakespeare (a anwyd yn 1564), ac ynddo y ceir hanes Deddf Uniad Lloegr a'r Alban a basiwyd 143 o flynyddoedd yn ddiweddarach, ai ni ddywedasem heb betruso mai nid Shakespeare a ysgrifennodd y rhan a'i cynwysai? Dyna fuasai rhoddi barn yn yspryd yr Uwch Feirniadaeth.

16.—Proffwydi a Phroffwydoliaeth.

Cred Undodiaid na edy Duw ei hun fyth heb dyst, ond yn hytrach enfyn i bob oes a phob cenedl ei weithiwr—ei broffwyd i gyfeirio y bobl i ffyrdd gwell o fyw. Ymhlith y mwyaf o'r tystion hyn ydoedd Proffwydi Israel a siaradai gyda darbwyllineb moesol mor fawr a chyda'r fath nerth fel yr apelia'u geiriau heddyw at galonnau dynion.

BETH YDYW PROFFWYD.—Hyd nes i Efrydwyr diweddar astudio y Beibl yn drylwyr, credid yn gyffredin mai proffwyd oedd un a rag-ddywedai am ddigwyddiadau y dyfodol; a dysgid yr ategid yr olwg hon gan y ddau air Roeg (*pro* a *phemi*) o ba rai y tarddid y gair Saesneg. Erbyn hyn, gwyddom y galwai y Groegiaid un a rag-ddywedai am ddigwyddiadau yn *mantis*, a golygent wrth y gair *prophetes* un a siaradai tros un arall. Felly, ond i ni lynu wrth ystyr gyntefig y gair, nid ydyw proffwyd ond siaradwr Duw—a chyhoeddwr ei genadwri.

Siaradai'r Hebrewyr am dano fel

nabi ac er na roddwyd terfyn ar y ddadl eto, y mae tuedd barn y mwyafrif o'r ysgolheigion o blaid yr olwg mai ystyr wreiddiol y gair hwn hefyd oedd "siaradwr" (spokesman).

PROFFWYDI: ATHRAWON MOESOL.—Cred Undodiaid gyda mwyafrif efrydwyr heddyw mai dynion oedd y proffwydi a deimlai Dduw yn symud yn eu calonnau; a thraddodent negesau oedd yn ymwneud a digwyddiadau'r dydd i'r bobl. Er yr edrychai rhai o honynt ymlaen, fel y gwnae eneidiau difrif mewn cenedloedd ereill at ddyfodiad arweinydd a waredai y bobl o'u drygioni a'u cyfyngderau, eto ni ofalent am yr hyn a oedd yn debig o ddigwydd gannoedd o flynyddoedd wedi'u marw. Dynion crefyddol oeddent o weledigiad cyrhaedd-bell. Ymwnaent â'r problemau a bwysai ar y genedl, ac nid oedd y gweledigiad cyrhaedd-bell ond canlyniad y gweledigiad mewnol i ystyr y presennol agos. Diwygwyr cymdeithasol a gwladweinwyr oeddent yn hytrach na diwïniaid a'r cyffelyb. Yn Israel fore ymgeisiai dynion ddarganfod ewyllys Duw trwy fwrw coelbren, trwy ymgynghori a cherrig cysegredig, trwy ddal cymundeb a gweledyddion a thrwy wrando ar offerynnau yr offeiriad; ond ni phroffesai y proffwydi diweddar Amos, Esaia a Jeremia arfer diwiniaeth. Dynion ar dân oeddent gan sel foesol a brwdfrydedd crefyddol o'r radd uchaf,—a meddienid hwy gan ddoethineb barn a nerth meddwl. Cyfiawnhäent ddywediad Locke—"Pan wna Duw broffwyd ni ddadwna ddyn." Daethant yn siaradwyr Duw, fel proffwydi gwir heddyw, oherwydd trwy uniondeb bywyd ac yspryd difrif gwnaethant eu hunain yn deilwng i ddderbyn ac i draddodi eu neges. Dysgent y bobl goruwch pob peth fod Duw Israel yn Dduw cyfiawn, ac fod yr anffodion oll a ddaeth ar y genedl i'w priodoli i'w hanufudd-dod o'i orchymynion.

CAMDDARLUNIO PROFFWYDOLIAETH.—Bwriedid geiriau'r proffwydi yn flaenaf i'r bobl a oedd yn byw yn eu hamser, ond trwy awydd camarweiniol i ganolbwyntio holl rym eu nheges ar yr Iesu, dywedir fod darnau o'u hysgrifeniadau yn cyfeirio ato. Dyma'r dresn yn anffodus a ddefnyddiwyd gan ysgrifenydd yr Efengyl yn ol Mathew, oherwydd yr oedd yn bryderus i argyhoeddi y genedl Iddewig mai'r Iesu oedd ei Mhessiah hir-ddisgwyliedig. Gadawer i unrhyw un ddarllain y dyfyniadau, mewn ysbryd goleuedig a rhaid fydd iddo gytuno a'r Dr. Estlin Carpenter yn "Y Beibl yn y Bedwaredd Ganrif-ar-ddeg," pan ddywed, "Y teflir anghlod yn gyfiawn heddyw ar y ffurf hon o ddehongli—neillduo adnod oddiwrth y testun." Dengys myfyrio Esaia vii. 15, 16 na allai cysylltiad yr Efengylydd o'r plentyn yn 14 fod yn meddwl y proffwyd. Rhaid ei eni yn ystod cyrch-ymosod brenhinoedd cyfathrachol Ephraim a Syria trwy yr hon y dioddefai Judea. * * * Ond cyn cyrhaeddo dymhor addfedrwydd, anrheithir rhandiroedd y brenhinoedd hyn yn eu tro." 'A gymerwyd y mab bychan gyda'i fam i'r Aifft (Mathew ii. 15) "fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd gan yr Arglwydd trwy y proffwyd, gan ddywedyd, O'r Aifft y gelwais fy mab?" Edrychai Hosea drach ei gefn ac nid ymlaen "pan oedd Israel yn fachgen mi a'i cerais ef, a gelwais fy mab allan o'r Aifft"; a gorffwysai prawf o'r serch dwyfol yn y myned allan—yn yr Exodus.'

(*Pw barhau.*)

CHWEDL DARAWIADOL.

Tra'r oedd y Rabbi un dydd o gartref, bu farw ei ddau fab. Yr oeddynt yn hardd o bryd a gwedd, ac wedi eu dwyn i fyny yn y gyfraith. Wedi iddynt farw, dygodd y fam hwy i'w hystafell, a gosododd hwynt ar y gwely, ac ar ol taenu llian gwyn drostynt, aeth allan. Pan ddaeth y Rabbi adref, y peth cyntaf wnaeth oedd holi am y bechgyn. Estynodd y wraig iddo gwpan. Moliannodd yr Arglwydd am y fraint o gael myned allan ar y Sabbath. Yna yfodd o'r cwpan, a gofynodd drachefn, "Pa le mae y bechgyn, fel y gallont hwythau hefyd yfed o gwpan y fendith?" "Nid ydynt yn mhell," ebe hithau, a gosododd fwyd o'i flaen i'w fwyta. Ymddangosai yr holl amser hyn mewn tymer siriol. Wedi iddo roi diolch am ei ymborth, cyfarchodd y wraig ef yn y geiriau hyn—"Ychydig ddyddiau yn ol, ymddiriedodd cyfaill ddau berl gwerthfawr imi, ac yn awr y mae wedi eu galw yn ol. A ydyw yn ddyledswydd arnaf eu rhoi?" "Pwnc ydyw hwna," ebe y Rabbi, "na ddylai fod angen i fy mhriod ei ofyn. Paham y petrusit roddi i bob un ei eiddo ei hun?" "Paham?" ebe hithau. "Meddyliais mai gwell oedd peidio eu rhoi nes cael dy farn di ar y mater." Ar hyny, hi a'i harweiniodd ef i'r ystafell, ac aeth at y gwely, a symudodd y llian gwyn oedd yn cuddio y ddau gorff. Safodd y tad mewn syndod, a griddfanau'n dost, a thorodd allan i wylo a llefain, "O fy mechgyn! fy mechgyn anwyl, goleuni fy llygaid a'm dealldwriaeth oeddych. Myfi oedd eich tad chwi, ond chwi oeddych fy athrawon i yn y gyfraith." Ar hyn, trodd y fam o'r neilldu gan wylo yn chwerw iawn. Yn fuan, hi a gymerodd ei phriod gerfydd ei law, ac a ddywedodd, "Rabbi, oni ddysgaist imi na ddylwn un amser fod yn anfoddlawn i ddychwelyd i'w berchenog y cyfryw beth a ymddiriedwyd i'm gofal. Gwel—'Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymerodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd!" Ac ebe'r Rabbi duwiol, "Ie, bendigedig fyddo enw yr Arglwydd, bendigedig fyddo yn oes oesoedd.

GWERTH RHYDDID.

Amserau yw y rhai hyn sydd yn gwneuthur prawf ar eneidiau dynion. Y milwr hafaidd, y gwladgarwr tywydd teg, fe dry hwnw ei gefn ar wasanaeth ei wlad ar gyfwng fel hwn; ond yr hwn a saif yn awr, fe deilynga hwnw gariad a diolch pob gwryw a benyw. Gormes, fel uffern ei hunan, nid hawdd ei orchfygu, eto mae genym y cysur hwn, po galetaf yr ymdrech, mwy gogoneddus y fuddugoliaeth. Yr hyn a sicrhawn yn rhy rad a barchwn yn rhy ysgafn. Ei uchelbris rydd i wrthrych ei werth. Fe wyr y nefoedd sut i osod pris priodol ar ei nwyddau, a byddai'n rhyfedd yn wir pe na phrisid gwrthrych mor nefolaidd a rhyddid yn uchel iawn.

TOM PAINE

ODDIAR Y TWR.

Oni bae fod y rhyfel erchyll sydd, bellach er's dros flwyddyn, yn anrheithio rhan mor fawr o Ewrop, yn taenu dinystr ar fywydau a meddiannau y ffordd y cerddo, ac yn achosi dioddefaint nad yw yn bosibl ini ffurfio ond dychymyg gwan o barthed iddo, yn ei gwneud bron yn amhosibl i ddynion a benywod i feddwl am ddim arall, tebyg mai un o destunau siarad ac ysgrifennu y byd crefyddol, yn y dyddiau diweddaf hyn, fyddai

Y Mynediad Drosodd ar du Mr. Campbell

i wersyll yr Eglwys Sefydledig. Byth er pan y torrodd dadl y Dduwinyddiaeth Newydd allan ychydig flynyddau yn ol, y mae ei enw wedi bod yn amlwg iawn yn llygaid y cyhoedd, a dwfn yw'r argraff y mae ei personoliaeth wedi wneud ar ddosbarth lliosog o bobl grefyddol; a phe gofynnid i'r cyfryw i enwi'r pwlpud ellid ei ystyried, gyda phriodoldeb, yn ganolfan at yr hwn y tröid am arweiniad ar bynciau mawr y dydd —yn enwedig ar bynciau mawr y dydd yn eu perthynas â'r bywyd ysbrydol—pa bwlpud arall ond eiddo'r City Temple ellid ei enwi? Er y llawenychwn ni, yn naturiol, yn yr ysgogiad roddwyd ganddo i syniadau rhyddfrydig ar bynciau crefyddol—duwinyddol yn hytrach, eto nid ar gyfrif hyn yn unig nac yn bennaf yr edrychir i fyny ato. Credwn ni ym mhwysigrwydd syniadau rhyddfrydig.

"Ideas Rule the World,"

medd un awdwr; meddylddrychau lywodraethant y byd. Os gwir hyn—ac y mae yn ddiamheuol wir—goreu i gyd po uchelaf y syniadau, neu'r meddylddrychau. Anferthol bwysig yw cael cydgordiad mor berffaith ag sydd ddichonadwy rhwng meddylddrychau crefyddol a meddylddrychau mewn cylchoedd ereill; er enghraifft, yn y cylch gwyddonol. Nid da ydyw fod syniadau'r dyn crefyddol (dyweder) am ddull creadigaeth y byd yn anghytuno â syniadau'r gwyddonwr—yn enwedig felly os bydd y syniadau olaf hyn wedi eu sylfaenu ar dir gweddol sicr. Am hir amser, bu brwydr frwd rhyngddynt. Pwy na wyr am y frwydr parthed creadigaeth y byd yn ol Genesis ac yn ol gwyddor? Glynai'r byd crefyddol yn gyndyn wrth Genesis, a llygadent yn eiddigeddus ar y gwyddonwr a anelai ei ergydion at eu hamddiffynfa; ac nid oedd y gwyddonwr yntau yn gynnil yn ei ymosodiadau. Nid oedd un angen i hyn fod; ond dyna fel y bu am hir amser. Y mae'r byd crefyddol, yng nghwrs y blynyddau diweddaf hyn, wedi myned trwy

Chwyldroad Rhyfeddol;

gyda'r canlyniad fod y ddwy fyddin, bellach, yn dod yn gyflym i well dealltwriaeth o safleoedd eu gilydd. Gwneir ymgais o ddifrif, yn y dyddiau hyn, i berffeithio'r cyd-ddealltwriaeth. Y mae'r gwyddonwr mewn mwy o gydymdeimlad â'r safle grefyddol; ac y mae'r pwlpud yn fwy eofn yn ei ymgais i ddeall y gwyddonwr, ac i fanteisio ar y wybodaeth well ddygwyd i'r goleu drwyddo. Y mae awelon iachus rhyddid, mewn canlyniad i hyn, yn cyflym yrru allan o'n llwyfannau crefyddol lwydni meddyliol arferai eu cylchynu. Nid pell o le fyddwn pe dywedwn fod

Mr. Campbell wedi gwneyd Mwy na Neb

person unigol i ddwyn oddiamgylch

y cyfnewidiad hwn. Y mae nifer luosog iawn—ni ddywedaf y mwyafrif—o bwlpudau Prydain heddyw yn fwy rhydd oblegid ei fod ef wedi anturio i'r tir fu mor hir yn dir gwaharddedig; y mae y rhai a lanwant y pwlpudau hyn yn fwy anturiaethus oblegid ei fod ef wedi anturio o'u blaen. Y mae hyn, i ni, yn destyn llawenydd. Eithr llawer mwy yw'r llawenydd oblegid y ffaith ei fod yn bregethwr a chenadwri ganddo i'w oes, yn broffwyd a feddai weledigaeth glir ar bynciau bywyd a thynged dyn. Dywedwyd wrthyf yn ddiweddar gan gyfaill nad oedd ei athroniaeth heb ei diffygion. Nid amheuaf gywirdeb y feirniadaeth hon. Pa athroniaeth sydd heb ei diffygion? Y mae'r athroniaeth berffaith, eto, ym mhell yn y dyfodol. Eithr anturiaf ddyweyd fod addysg Mr. Campbell, gan nad beth ei diffygion, wedi profi ei hun yn

Wrthglawdd Cadarn yn erbyn y Dòn o Faterolaeth

fu—ac sydd eto i ryw raddau—yn gweithio dan seiliau crefydd, ac yn bygwth hyd yn oed ei bodolaeth. Ydyw'r dylanwad hwn—y dylanwad dau-ddyblyg hwn, fel y gellir yn briodol ei alw—yn debyg o ddarfod gyda bod Mr. Campbell yn croesi'r llinell o un cylch i gylch arall—o Ymneillduaeth i Eglwysyddiaeth, o'r City Temple i Eglwys Gadeiriol Birmingham? Nid yw hynny yn debyg. Dyweder ei fod wedi gorfod rhoi i fyny—yn fwy cywir, efallai, ei fod, yn wirfoddol, wedi rhoi i fyny—y syniadau arferem gysylltu a'i enw. Y mae ei lyfr ar y "Dduwinyddiaeth Newydd" wedi ei dynnu yn ol o gylchrediad. Tebyg mai dyna'r ffaith. Sut y gallai Mr. Campbell, gyda'r llyfr hwn mewn cylchrhediad, roi ei gydsyniad cyhoeddus i Gredo St. Athanasius a'r Namyn Deugain Erthygl? Y mae'r ddau safle yn hollol anghydweddol â'u gilydd. Os oes ganddo unrhyw radd o barch i gysondeb, nid y Dduwinyddiaeth Newydd fydd duwinyddiaeth Mr. Campbell mwyach, eithr eiddo'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Y mae hyn

Yn Gam Bras Iawn Tuag yn Ol.

Ond os yw arch-broffwyd y mudiad Rhyddfrydig wedi cilio allan o'r rheng, y mae ei addysg am y dwsin blynyddau diweddaf wedi cael gafael rhy gadarn ar feddyliau miloedd o fobl tu fewn a thu allan i'r eglwysi iddi gael ei ddiddymu mwy. Gellir aralleirio geiriau Beiblaidd adnabyddus, a'u cymhwyso ato ef fel hyn—"Y mae efe, er wedi cilio ar y naill du, yn llefaru eto." Eithr dylanwad anuniongyrchol fydd ei eiddo ef yn y cylch hwn o hyn allan. Am ei ddylanwad fel dysgawdwr ysbrydol, disgwyliaf i hwn fyned ar gynnydd yn ei gylch newydd. Dyweder a fynner, y mae cryn lawer i'w ddweyd dros Eglwys Sefydledig. Nid ennill i gyd yw datgysylltiad. Y mae'r Eglwys Sefydledig, fel y mae yn awr, mae'n wir, ym mhell o'm delfryd i o'r hyn ddylai Eglwys Sefydledig fod. Ond fy marn gadarn i yw—pe gellid cael Eglwys Sefydledig dipyn yn nes i'm delfryd i o Eglwys Sefydledig, y byddai cryn lawer i'w ddyweyd o'i phlaid. Nid yw'r Golygydd, wrth gwrs, yn gyfrifol am y syniad hwn. Ac ni raid i'r darllenydd gytuno âg ef. Y mae pwlpud Eglwys Sefydledig *i fod*, er nad yw felly, yn un cenedlaethol—y mae *i fod* yn un o'r hwn y gall y pregethwr draddodi cenadwri i genedl gyfan. Braidd y gellir dyweyd fod gan yr Eglwys Sefydledig mawr un pregethwr a haedda'r desgrifiad hwn—

Pregethwr a Chenadwri Ganddo i'r Holl Genedl.

Ond fe fydd ganddi bregethwr o'r fath yn Mr. Campbell. Y mae wedi ennill clust y cyhoedd. Y mae ganddo genadwri i'r cyhoedd. Ac os y bendithir ef â iechyd ac â nerth corfforol a'i gwna yn ddigonol i'r gorchwyl, gallwn ddisgwyl iddo i chwareu rhan mwy amlwg nag erioed ym mywyd crefyddol ei wlad.

Gwyliedydd.

DERWEN OWAIN GLYNDWR.

Allan o'r *Drysorfa Gynulleidfaol*, 1849, tud. 236—8.

Mewn lle a elwir Shelton, ar fin y ffordd o Groesoswallt i'r Amwythig, tua chwech milltir o'r lle olaf, y mae hen dderwen oedranus, yn cymeryd ei henw oddiar draddodiad ddarfu i'r rhyfelwr Owain Glyndwr ddringo i'w changhenau i weled brwydr yr Amwythig fel ei gelwid.

Y frwydr hon a ymleddid ar yr 20fed o Orphenaf 1403, rhwng byddinoedd Harri IV, yr hwn oedd y pryd hyny yn frenin Lloegr, a byddinoedd Syr Henry Percy, yr hwn yn gyffredin a elwid Hotspur, mab hynaf Iarll Northumberland, yn deilliaw o had brenhinol* y wlad hono. Y ddau bendefig hyn wedi cael o honynt ryw achosion o anfoddlonrwydd oddiwrth ddull Harri yn llywodraethu, pob un oherwydd ei gam ei hun, a wnaethant gynghrair a'u gilydd i'w ddiorseddu; ac yn ol y cytundeb rhyngddynt, yr oedd Hotspur, mab hynaf yr Iarll, i ddyfod a byddin luosog o ogledd Lloegr i gyfarfod a byddin Owain ar odrau Cymru.

Cyn gynted ag y clybu y brenin am y cyngrair hwn, a darpariaethai ei wrthwynebwyr, efe a ddug ei fyddin yn mlaen gyda phob brys i'r dyben o oddiweddyd Hotspur cyn iddo ymgysylltu a Glyndwr. Cyrhaeddodd y fyddin frenhinol yr Amwythig ychydig oriau cyn i Hotspur ddyfod at y pyrth. Hyn ydoedd ar y 19eg o Orphenaf; a'r brenin oedd yn awyddus am gael brwydr yn ddioed. Eithr Hotspur ni thybiai ei hun yn ddigon cryf i anturio i'r maes, oblegid nad oedd ganddo ond pedair mil ar ddeg o wyr, tra yr oedd gan y brenin yn agos cymaint a hyny drachefn. Pa fodd bynag, y bore dranoeth, aeth y brenin a'i fyddin i'r maes, a bu orfod i Hotspur a'i fyddin ei wynebu.

Dechreuai y frwydr â chawodydd o saethau oddiwrth fwawyr Hotspur, y rhai a safent ar dir manteisiol iawn i'r cyfryw ddull o ryfelwaith, a mawr oedd y dinystr a wnaed ar wyr y brenin. Ond bwawyr y brenhin ni buant yn fyr o dalu yn ol i'w gwrthwynebwyr; a'r frwydr a aeth rhagddi yn danbaid iawn. Hotspur a'i gydymaith Douglas a lawn amcanent frad ei Fawrhydi, ac i'r dyben hwnw, anturient trwy ganol y saethau hedegog, nes eu dyfod yn bur agos i wrthrych eu dialedd. Yr oedd Harri eisioes wedi colli tri o geffylau odditano, ac yn ol pob tebygolrwydd a fuasai yn awr yn cael ei ddal neu ei ladd, oni buasai i'w ddynion ei hun wneyd cyni nid bychan i'w amddiffyn a'i waredu; a diau y buasai tynghedfen y dydd hwn wedi troi yn ei erbyn oni buasai i Iarll March ei gipio o'r perygl, canys yr oedd ei lumanwr eisioes wedi ei ladd, a'i faner eisioes wedi ei damsang, a nifer mawr o'i warchodwyr wedi syrthio trwy law y gwrthwynebwyr, a Thywysog Cymru, mab ieuanc y brenin, wedi ei archolli gan saeth yn ei wyneb. Ar y cyfan, er holl ymegniad y milwyr brenhinol, yr oedd y fuddugoliaeth yn ymddangos yn debygol iawn y pryd hwnw o syrthio i ran y blaid wrth-

* Bod Owain o had brenhinol sydd eglur, a hyny ond ychydig raddau oddiwrth Llewelyn, tywysog diweddaf y Cymry, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1282, ac felly ddim ond 72 mlynedd cyn genedigaeth Owain, yr hyn a amcenir yn 1354. Ei dad ydoedd Gruffydd Fychan, yn disgyn o Ruffydd, Arglwydd Dinas Bran (yn ymyl Llangollen), a'i fam ydoedd Elin, merch hynaf Tomos ab Llewelyn ab Owain, gwraig yr hwn oedd Elin Goch, merch ac aeres Catherine, un o ferched Llewelyn, tywysog olaf y Cymry. Felly yr oedd mam Owain Glyndwr yn orwyres i'r Tywysog Llewelyn.

ryfelgar, tra'r oedd eu gwroldeb yn awr wedi ymadnewyddu oddiar y dyb a fynwesent mewn canlyniad i ddymchweliad y faner, fod y brenin ei hun wedi syrthio hefyd; ac o enyn calondid eu gilydd yn fwy, bloeddient allan, "Henry Percy yn frenin! Henry Percy yn frenin!" Yn yr amgylchiad pryderus hwn, y dewrwych Percy, tra yn gwibio drwy fyddinoedd ei wrthwynebwyr i chwilio am eu brenin, a syrthiodd trwy ryw law anhyspys, tra yn cael ei amgylchynu yn nghanol ei elynion. Y brenin, heb golli dim amser, a ddefnyddiai yr adeg hon er ei fantais ei hun, a chan ddyrchafu ei lais, a ddolefai allan, "Y mae Henry Percy wedi ei ladd!" Y frwydr ar hyn a derfynid, gan adael y fuddugoliaeth yn hollol o du y brenin.

Yn awr, diameu genym fod y darllenydd Cymroaidd allan o bob amynedd am gael gwybod yn ucha le yr oedd ei gydwladwr Glyndwr ar ddwthwn o'r fath bwysfawrogrwydd; gan hyny, prysurwn i adrodd iddo pa fodd yr oedd pethau yn bod. Yr oedd y pendefig dewraidd hwnw, a byddin luosog o'i gydwladwyr yn ei ganlyn, y pryd hwn ar eu taith o Groesoswallt tua'r Amwythig, ac heb wneuthur cymaint brys ag a fuasai dymunol, gan gasglu nad oedd yn bosibl i fyddin y brenin ddyfod yn mlaen mor gyflym. Oni buasai y camgymeriad hwn, y mae'n ymddangos y gallasai byddinoedd Hotspur a Glyndwr fod wedi ymuno yn nghyd ac felly yn fwy na digon i wrthsefyll byddin Harri. Pa fodd bynag, rhagflaenwyd y cysylltiad dymunol hwnw drwy y brys a arferodd y brenin i'r perwyl; ac er fod Glyndwr a'i fyddin wedi cyrhaedd o fewn milldir i'r Amwythig, eithr gan fod afon Hafren ganddynt i'w chroesi, yr hon yn y lle hwn ydoedd ffrwd o led a grym anmhrosglwydd, ac ydoedd ar hyn o bryd, er ychwanegu yr anffawd, yn fwy felly nag arferol oherwydd gorlifiad; ac er bod rhyd arni yn ymyl Shelton, lle ar rai amserau y gellir ei chroesi yn lled rwydd, eithr yn yr amgylchiad presenol yr ydoedd hyny yn analluadwy, ac yr oedd pontydd yr Amwythig erbyn hyn yn meddiant y brenin. Felly nid oedd gan Glyndwr ddim i'w wneuthur ond sefydlu ei wersyll yno ar lan Hafren, er ei fod o'r lan hono yn gallu yn eglur ganfod rhestrau ei gyfaill Hotspur ar y lan gyferbyniol, a'r eiddo y brenin yn dylifo yno am eu penau, nes gorfod iddynt ymdaraw yn eu herbyn fel y gallent, heb fod yn bosibl i'r Cymry roddi iddynt y cynorthwy a flysient!

Y lle y bu yr ymladdfa yn boethaf sydd yn nghylch tair milldir o'r Amwythig, ac a elwir "Maes-y-Frwydr"; a'r brenin Harri a adeiladai yno eglwys hardd dy, yr hon a arferir hyd y dydd hwn fel Eglwys blwyfol, er bod rhan fawr o honi yn adfeiliawl.

Traddodiad yr ardal yw, ddarfod i Glyndwr ddringo i ganghenau derwen fawr oedd yn y lle, ac iddo oddi yno ganfod yr holl frwydr; ac y mae tebygolrwydd mawr fod yr adroddiad hwn yn gywir. Nid hawdd fyddai dwyn rhesymau i wrthbrofi gwirionedd traddodiad y trigolion, na dychmygu pa fodd y ffurfiasid yr unrhyw oni buasai ei sylfaenu ar ddygwyddiad y gyfryw weithred. Nid yw ddim yn debygol fod y trigolion presenol yn gwybod nemawr, os dim am y fath un ag Owain Glyndwr, nac amgylchiadau brwydr yr Amwythig. Ac os bu mewn gwirionedd i Owain gyrhaeddyd y lle hwn, fel yr adroddwyd, ac nas gallai groesi yr afon oherwydd y llif (megys nad oes dim yn yr amgylchiad yn peri i'r peth ymddangos yn anhebygol) y mae yn naturiol iawn barnu iddo ddringo i'r goeden i gael gweled y frwydr, yn gyffelyb fel yr adroddir i'r brenin Siarl sefyll ar ben un o dyrau muriau Caerlleon i weled gorchfygiad ei fyddin ar Waun Rowton yn y flwyddyn 1645. Y mae Eglwys Battlefield i'w gweled yn amlwg iawn o'r fan y mae y derwen uchod yn sefyll, ac heb fod uwchlaw milldir oddiyno; a'r pryd hwnw fe allai fod y wlad yn fwy agored nag ydyw yn bresenol. Felly yr oedd yn beth hawdd i

Owain ganfod gweithrediadau y ddwy fyddin ; er fod yn dra gofidus iddo weled rhestrau ei gyfaill Hotspur yn cael eu maeddu.

Nid oes ychwaith ddim anhawsder i gredu, yn ol ymddangosiad presenol y dderwen uchod, nad oedd yn goeden o gryn faintioli yn 1403, sef 446 mlynedd yn ol. Y mae hanesion am dderw yn tyfu lawer yn hwy o amser na hyny ; ac y mae profion i ddangos fod derwen Shelton yn goeden hardd-deg rai canrifoedd yn ol. Y mae hi eto yn tyfu, ac yn dwyn rhai cannoedd o fês bob blwyddyn, er bod arni lawer o arwyddion henaint ; y mae hi mor wag oddi mewn fel yr ymddengys nad oes fawr o ddim ond y rhisgl yn ei chynal i fyny, a gallai o leiaf chwech neu wyth o ddynion sefyll oddi mewn iddi. Ei mesuriad sydd fel y canlyn : ei chylchfesur yn y bôn 44 troedfedd a 3 modfedd ; tua phum troedfedd oddi wrth y llawr y mae hi yn 25 troedfedd ac un fodfedd ; tua thair troedfedd yn uwch na hyny y mae hi yn 27 troedfedd a phedair modfedd o gylchfesur. Ei huchder i'r brigyn eithaf 41 troedfedd a 6 modfedd.

Fel y gŵyr y darllenydd yr oedd Owain Glyndwr yn un o wroniaid penaf Cymru, er fod Shakespeare yn gwneud gwawd o hono. Y mae llawer wedi ei ysgrifenu arno, ac eleni y mae yn cael sylw arbenig—pum can mlwyddiant ei farwolaeth 1415—1915. Ganwyd ef 1350. Yr oedd yn hanu o'r tywysog Llywelyn—tywysog diweddaf Cymru.

MARWOLAETHAU.

MEDI 21, yn 65 mlwydd oed, bu farw Anne Evans, Mount Pleasant, Llandyssul. Yn ardal Bwlchyfadfa y treuliodd yr ymadawedig ran fwyaf o'i hoes, hyd o fewn y pymtheng mlynedd diweddaf, pryd y symudodd i Llandyssul, ac yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn, hi ydoedd yn gofalu am Gapel-y-Graig yno, a gwnaethai ei gwaith i foddlonrwydd cyffredinol pawb. Profodd yr ymadawedig lawer o chwerwder ac anhawsderau bywyd, ond yr oedd ei chalon obeithiol yn gryfach na'r oll. Cafodd gystudd hir a chaled, a gweiniwyd arni yn dyner gan ei hunig ferch—Mrs. Jenkins, priod Mr. W. D. Jenkins, Architect, Llandilo, yr hon sydd yn galaru ei cholled. Claddwyd y dydd Gwener canlynol, yn Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. — James (A.), Pisgah, ac E. O. Jenkins.

HYDREF 6, yn 39 mlwydd oed, Daniel Evans, mab Mr. Evan Evans a Mrs. Evans, Pwllffein, Llandyssul. Glowr oedd yr ymadawedig, ac yn rhan-berchenog o lofa fechan yn ardal Pontardawe lle y gweithiai. Ar y dydd uchod syrthiodd cwymp arno, a bu farw yn y fan. Dyn ieuainc caredig a rhinweddol oedd yr ymadawedig, ac iddo barch mawr yn mhlith ei gydnabod yn Nyffryn-oedd y Clettwr a'r Tawe. Cludwyd ei weddillion adref i'w osod yn yn nghladdfa Pantdefaid y dydd Sadwrn dilynol i'w farwolaeth. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. Jones, (A.), Carmel, pregethwyd

yn y Capel gan y Parch. T. Arthur Thomas, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd dad a mam, brodyr a chwiorydd, perthynasau a'i chyfeillion lawer i alaru ar ei ol.

HYDREF 6, yn 85 mlwydd oed, Mr. John Jenkins, Glaslwyn, gynt o Gwaillwynoidos, plwyf Llandyssul. Bu Mr. Jenkins yn amaethwr adnabyddus a chyfrifol yn Nyffryn Clettwr am flynyddoedd lawer, a thra y parhaodd ei iechyd a'i nerth bu ef a'i ddiweddar briod yn golofnau i'r achos yn Mhantdefaid. Am rai blynyddoedd yn ystod gweinidogaeth y Parch. T. Thomas, bu yn ysgrifenydd yr eglwys. Yr oedd ei nerth wedi pallu er ys rhai blynyddoedd, a'r cam wedi byrhau, ac anaml y gwelid ef tuallan i gylch ei gartref a'i dyddyn. Gadawodd un ferch ac amryw wyrion mewn galar o'i golli. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohono yn Mhantdefaid, pryd y gwasanaethwyd yn y ty a'r capel gan y Parch. T. Arthur Thomas, ac ar lan y bedd gan y Parch. John Davies, Alltyplaca.

HYDREF 18, yn 50 oed, bu farw Rees Evans, Troedrhiw Capeli, gynt o Gwmynach, ger Cribyn, gan adael un mab, yr hwn sydd ar faes y rhyfel yn Ffrainc, un brawd, dwy chwaer, yng nghyd â lliaws o berthynasau agos, mewn hiraeth ar ei ol. Yr oedd ei iechyd wedi ei amharu er's cryn amser, ac amlwg oedd i'w gydnabod fod y diwedd yn agoshau. Yn ystod ei gystudd gweinyddwyd arno yn dyner gan ei chwaer, Mary, yn y lle uchod. Bu un adeg yn fasnachwr ymenyn adnabyddus dros gylch eang yng Ngheredigion a Morganwg, a mynwesid tuag ato deimladau gwresog gan ei gydnabyddiaeth ar gyfrif llawer o linellau dymunol yn ei gymeriad. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Cribyn, dydd Gwener canlynol, ym mhresenoldeb cynulliad lliosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, gyda chynorthwy y Parch. L. Williams.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Mae yn bryd cychwyn dysgu'r Gwersi ar gyfer Arholiad 1916. Cynwysa y llyfr wersi am dair blynedd i'r Safonau I a II, a'r gwersi am yr ail flwyddyn sydd i fod i'r naill safon a'r llall eleni. Safon I, tud. 4—5, Safon II, tud. 12—18. Pris 1g, gyda'r post 1½g. Anfoner at y Parch. L. Williams, Glasgoed, Felinfach, S.O.

RHYDYGWIN A CHILIAU.—Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yn y ddwy eglwys. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, a gwnawd casgliad yn yr olaf tuag at y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF—Cynhaliwyd yr uchod yng Nghapelycwm, Nos Wener, Hydref 15. Pregethwyr, y Parchn. T. Oswald Williams, B.A., ac E. O. Jenkins. Yng Nghapelybryn, nos Fercher yr 20fed. Pregethwyr, y Parchn. T. Arthur Thomas a Dr. Griffiths, (B.), Kenffig Hill. Yn Alltyplacca, nos Wener yr 22ain. Pregethwr, y Parch. E. O. Jenkins. Cafwyd cynulliadau da, gwasanaethau

gwerthfawr a chyfraniadau boddhaol tuag at y Gymdeithas yn Llundain.

LLANDYSSUL.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y cynhauaf yn y lle hwn dydd Sul a nos Fawrth, Hydref 17 a 19. Pregethwyd yn gymeradwy iawn i gynulleidfaoedd lluosog gan y Parch. T. Oswald Williams, B.A., Llanbedr.

PANTDEFAID.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y cynhauaf yn yr eglwys hon dydd Sul a nos Lun, Hydref 17 a 18. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Oswald Williams, B.A., Llanbedr, a'r gweinidog.

CAPELYGROES.—Bydd yn llawenydd gan ei chyfeillion glywed fod Miss Jenkins, Blaenwaunuchaf, wedi pasio'r arholiad mewn Coginiaeth ar derfyn y cwrs byr yng Ngholeg Aberystwyth, gydag Anrhydedd yn yr oll o'r testynau. Llongyfarchwn hi ar ei llwyddiant.

PERSONOL.—Y mae yn mryd y Parch. Simon Jones, B.A., gweinidog yr Eglwys Undodaidd yn Abertawe, i ymuno â'r fyddin. Bwriada roddi ei wasanaeth i'r *Royal Army Medical Corps*. Y mae yn gofyn am help i lanw ei bwlpud yn ystod ei absenoldeb. Edmygwn ei yspryd, ac eiddunwn iddo bob llwyddiant.

ATHRAWIAETH PERSON CRIST.—Yn y *Dysgedydd* am Tachwedd, dywed y Parch. D. Powell, Lerpwl, ei bod yn haws iddo ef ar dir deall gredu yn Nuw'r Trindodwr nag yn Nuw'r Undodwr. Ymddengys fod yr anhawsterau uwch-anianol yn llai i'r Trindodwr nag i'r Undodwr. Yn yr un ysgrif, dywed fel hyn: "Y mae yn rhaid i mi gyfaddef yn onest nad oes ddadrys ar broblem y Duwddyn. Wrth gynyg ei ddadrys collir golwg yn aml ar ei gwir anhawster. . . . Y mae yn annichon amgyffred Duw a dyn yn dod yn un â'u gilydd, a rhoi i *un* ei ystyr lawn, ac i Dduw aros yn Dduw a dyn yn ddyn. I mi, pa fodd bynag, y mae yn annealladwy pa fodd y gall yr un Person fod ar yr un pryd yn Dduw perffaith a dyn perffaith." Ac eto y mae yn haws ganddo ar "dir deall" gredu yn Nuw'r Trindodwr nag yn Nuw'r Undodwr. Ar ol darllen yr ysgrif drwyddi gyda chryn ddyfalwch, medrwn ddweyd gyda diolchgarwch yn ngeiriau Paul, "I ni nid oes ond un Duw," ac nid oes arnom angen dadrys problemau dyrys ac annichon eu hamgyffred fel y "Duw-ddyn," "yr un yn Dri a'r Tri yn un," yr "Ymgnawdoliad," &c.

GWERSI AR Y MESUR BYR.

Peidiwch gwario yr oll sy' genych; peidiwch credu yr oll a glywoch; peidiwch adrodd yr oll a wyddoch.

Pan fyddo eich tafod ar fin gollwng allan rywbeth annymunol, cauwch eich dannedd arno, trwyddo os bydd angen.

Nid yw y math hwnw o bregethu adfywiadol sydd yn ceisio gyru dynion i'r nefoedd, drwy bery ofn uffern arnynt ddim yn deilwng o Gristnogaeth; nid yw ond paganiaeth o'r fath waethaf.

Cydiodd pregethwr ieuanc yn het esgob Pierce a gosododd hi ar ei ben, ac yr oedd yn ffitio yn gywir. "Beth, Mr. Esgob," ebe fe, "mae eich pen chwi a fy mhen inau yn gywir yr un faint,"—"Ydynt," ebe'r esgob "ar yr ochr allanol."

Mae y dyn da yn cashau drwg heb gashau dynion drwg, mae'r dyn drwg yn cashau'r da ac yn cashau'r dynion da hefyd.

Mae y diweddar Barch. Edward Everett Hale yn euog o ysgrifenu 1268 o bregethau. Mae yn cyffesu yn yr "*Unitarian Record*."

Fel Wesley, dysgodd Baxter fesur dynion wrth eu daioni yn hytrach nag wrth eu huniongrededd.

Er fod undeb yn dda, eto, nid yw yn ddymunol mewn un modd cael undeb opiniwn yn rhwymyn anwybodaeth, nac undeb proffes yn rhwymyn rhagrith.

Dywedir fod pob pregeth o eiddo Dr. Channing wedi ei ei thrwytho a'i efengyl Undodaidd. 1. Urddas y natur ddynol. 2. Goruchafiaeth rheswm. 3. Iachawdwriaeth drwy Garitor. 4. Undeb deallol a moesol Duw a dyn.

CONGL YR AWEN.

SUDDIAD Y LUSITANIA.

A Mai yn gwasgar ei belydrau têr,
A'i dês yn nawsu mîn yr awel bêr,
Y Lusitania hudai'r teithwyr mad
I forio'n ddewrfryd draw hyd draethau'n gwlad.
Cychwynai'r Cadben hwylio'n swŷn y llu
Bygythion erch grogasai'r Almaen ddu
Ar furiau llydain porthladd Efrog lân
Am lwfrdra cudd ac ystryw'r llongau tân
I suddo'r llestr—coron celf a'i bri,
A'i chladdu'n ddwfn ym medd y ddyfrol li'.
Bleserus fordaith o'r Gorllewin draw,
A'r orwel bell yn asur glir bob llaw :
Y Werydd fawr yn llyfn fel gwydr gwyrdd,
Heb ewyn broch ar frig ei wenyg fyrdd,
Na chalon erch ar fwrdd yn llunio brad,
Na breuddwyd wan yn disgwyl oerllyd nâd ;
Fel cwch yn esmwyth hwylio dros y llyn,
Ar nawn-ddydd haf wrth droed anghysbell fryn,
Bu mordaith ola'r Dywysoges ban
Hyd rych ei beddrod llaith yng ngwydd y lan.
Pellebrau roed ar wifrau'r ewyl iach,
Gan wibio'r newydd draw i Dref-draeth Fach,
Fod ei Brenhines - bri y Werydd Fôr,
A Meibion Gwent, ei chynghaneddol gôr,
Yn hwylus ddod a'u cân yn chwyddo'u bron
Wrth weld Gwyllt Walia Wen o frig y don,
A Lerpwl fawr yn chwifio'i benyr tlws,
Fod ei Mawrhydi'n dod ar drothwy'i drws,
A'i theithwyr llon yn fyw ar lawnt ei phlas
Fel tylwyth teg o bendefigol dras.
Ond Och ! pa beth yw'r waedd sy'n disgyn draw ar draeth
Kinsale yn ddolef groch ac ofnadwyol aeth ?
Pa beth yw'r fyglyd dorch esgynna'n syth i'r nef,
A'r swŷn sy'n rhwygo'r awyr megis taran gref?
Ai'r erch dan-suddol long o ddyfais Prwsia Fawr,
A'i gorffwyll ethern ddu sydd wedi suddo'i lawr
Orchest-waith celf, a'i chwalu'n ddellt ar draws yr aig,
A'i sgyrion fel mewn ymchwil wyllt am gysgod craig ?
O ! frawychus lewyg barlysai'r teithwyr blin
Pan welwyd suddol-long yn chwim gyfeirio'i min,
Gan luchio ei dinystriol arf dan warr y lli,
A gwe'd angeuol nod yn llywio'i hosgo hi,
At fron y Lusitania, yng nghudd dan frig yr aig,
A'i dryllio'n ddellt, a'i chwalu'n llwch fel gro y graig.
Trom atsain fel taran-follt sy'n gwefru dros y lli,
Gan ledu dros y glannau yn dorcalonus gri,
Fod eilun Mor y Werydd yn anrhaith dan y don,
A llawer mam mewn cynni a'i baban ar ei bron

Yn nofio dros yr eigion ac angeu yn eu gwedd,
Tra'r weilgi'n prysur agor ei ddwfn ddyfrllyd fedd.
Barbariaid glannau'r culfor a chwardd wrth weld eu tranc,
A'r mor yn pennu oed y llong wrth borthi'i rheibus chwant.
Swynol glychau clir Berlin sy'n galw'r ddinas dlos
I ddawnsio am ei llwfrdra yn oriau trwm y nos ;
Yr Almaen geidw wyliau i ddathlu'r anfad-waith
A erys am ganrifoedd yn ddwfn lofruddiol graith.
A nod o'i thwyll wareiddiad am genedlaethau lu !
A staen i oesau'r ddaear o'i maith orphenol du !
O Almaen erch lofruddiog pa ddeunydd yw dy graidd ?
Barbariaeth noeth yw'th foes, a thwyll sydd wrth ei gwraidd !
Dy had am byth erlynnir am dywallt gwirion waed,
A sathru'r cysegredig o dan dy halog draed ;
Ond, O ! Y Lusitania dderch galarnad haeddi di,
Gan Awen bêr Ceridwen am dy anfarwol fri,
Tlôs yrfa'th farsiandiaeth a fydd i'w hawen mwy
Yn destun ei chaniadau, medd iaith ei dyfnaf glwy'
O na ddyrchefid colofn ar frig y laswerdd don
I nodi man dy feddrod—y deg arwres hon,
A mangre'r erch gyflafan gyflawnodd llid y ddraig
Ellmynaidd yn llechwraidd ar frig gwyrdd donnau'r aig.

Aberdar. PARCWYSON.

HEN BENILLION.

Paid, ddarllenydd, bod fel gogor,
Dal y brychau heb ddim rhagor ;
Gad i'r brychau fyned heibio
Dal yr hyn o wir sydd ganddo.

Pwy oedd yr "Emynwr Melus" o Hafod Dafolog, a gyfansoddodd y penill canlynol yn ol tystiolaeth y diweddar Parch. Dr. J. Bowen Jones, o Aberhonddu :—

Mae lot o adar llawen,
Yn nythu yn Llwynrhydowen,
Yn tyngu'r a'nt i gyd yn serth
I'r nef yn nerth ei hunen.

Anfynych y cofnodir y penill a ganlyn yn iawn :—

Ewch i lawr i Bantycreuddin,
Chwi gewch glywed pregeth Calfin,
A Ben Jones yn gwaeddi ma's
Nad oes dim gras i bob dyn.

Dalier sylw :— Benjamin ac nid Ebenezer oedd enw'r gweinidog gyfeirir ato.

Digon sy ddigon, gormodedd sy flin,
Gan lawer mae mwy nag a wyddant ei drin ;
Gwell genyf ychydig a'r galon yn iach,
Duw 'nghadwo i rhag gormod yn fwy na rhy fach !

Cyfieithwyd yr uchod gan y Parch. David Davies, Castell Nedd, fel hyn :

Enough is sufficient and too much must cloy,
There are many have more than they well can enjoy ;
A little give me with a conscience quite clear,
Too much even more than too little I fear.

Cydwybod hynod ei hanian—a ffwrn
Uffernol gyflafan ;
Neu hedd lys a nefoedd lan
Yn enaid dyn ei hunan.

Gwelliant gwall :— Tud. 221, llinell 5, yn lle "llun" darllener "llyn."

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion.

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Books illustrative of the Principles and Faith of those who find the seat of Authority in Religion not in Church or Creed but in the Mind and Conscience and Experience of Mankind.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

General Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing —— food for everybody. ——

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool.
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham.
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
George Franklin, Esq., Sheffield, Esq.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
John Glasbrook, Esq., Esq., Swansea.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
Frederick William Nash, Esq.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London.
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester.
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
Sir Joseph Weston-Stephens, Bristol.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry; Sir Guy Douglas Arthur Fleetwood Wilson, K.C.B., K.C.M.G., G.C.I.E.

Subscribed Capital .. £22,947,804. **Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.**

Reserve Fund .. £4,000,000.

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.